**Rhif: 3**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C22/1102/36/AC** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **25/11/2022** |
| **Math y Cais:** | **Diwygio Amod** |
| **Cymuned:** | **Dolbenmaen** |
| **Ward:** | **Dolbenmaen** |
| **Bwriad:** | **Diwygio amod 1 (cyfnod cychwyn gwaith) ar ganiatad cynllunio C17/0772/36/LL er ymestyn y cyfnod i ddechrau'r gwaith am 5 mlynedd bellach** |
| **Lleoliad:** | **Tir i'r de o'r A487 ac i'r dwyrain o'r B4411, Bryncir, LL51 9LQ** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Mae hwn yn gais ar gyfer diwygio amod 1 o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C17/0772/36/LL ar gyfer is-orsaf newydd a seilwaith cysylltiedig er mwyn ymestyn y cyfnod dechreuad y datblygiad am 5 mlynedd ychwanegol. Fel rhan o'r cais presennol derbyniwyd Adroddiad Gwerthusiad Ecolegol ac Adroddiad Asesiad Risg Llifogydd cyfredol.

1.2 Lleolir y safle i'r de-ddwyrain o Fryncir (1.4km), i'r de o'r A487 ac i'r dwyrain o'r gyffordd gyda'r B4411 a 1.4km i'r gorllewin o Garndolbenmaen. Mae terfyn y llinell goch yn cynnwys ardal oddeutu 4.3ha; er hynny bydd compownd parhaol yr is-orsaf oddeutu 0.7ha. Mae gweddill y tir sydd oddi mewn i derfyn y llinell goch, yn cynnwys y ffordd fynediad, ardal troi i gerbydau, tirlunio ac ardaloedd gwaith adeiladu dros dro / rhoi i lawr.

1.3 Mae'r safle datblygu arfaethedig ar dir gymharol wastad ac yn cynnwys caeau pori gydag ardal o laswelltir corsiog i'r de-orllewin. Ceir cymysgedd o derfynau caeau o amgylch y safle, yn bennaf waliau cerrig sych a ffensys pyst a weiren, gyda gwrychoedd/coed ar hyd y terfyn deheuol a'r terfyn gogledd-orllewinol. Mae gwrychoedd wedi eu rheoli ar hyd terfyn deheuol yr A487 sy'n wynebu'r safle datblygu arfaethedig.

1.4 Mae llinell drydan uwchben 400kv Pentir - Trawsfynydd, yn rhedeg ar hyd ochr orllewinol y safle datblygu arfaethedig; ac mae nifer o dai unigol/clwstwr ger y datblygiad arfaethedig.

1.5 Ceir mynediad i'r safle o'r gogledd drwy ffordd fynediad fferm ac mae Llwybr Troed Hawl Tramwy Cyhoeddus (18 Dolbenmaen) ar hyn o bryd yn mynd drwy'r safle datblygu arfaethedig a bydd angen ei wyro i hwyluso'r is-orsaf a fwriedir. Mae'r ymgeisydd mewn trafodaethau gyda Swyddogion Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor am y gwyriad, a chafwyd cytundeb mewn egwyddor.

1.6 Mae angen compownd yr is-orsaf i roi lle i'r trawsnewidydd trydanol sengl a fyddai'n 'gostwng' foltedd 400kv cylched Pentir-Trawsfynydd i foltedd o 132kv. Pan gyflwynwyd cais C17/0772/36/LL roedd y gwaith yn gysylltiedig gyda'r Wylfa newydd arfaethedig. Pan ddisgynnodd y cynlluniau ar gyfer Wylfa newydd drwodd ni ymgymerwyd gyda'r gwaith yn gysylltiedig gyda'r is-orsaf drydan. Erbyn hyn mae angen yr un gwaith ar gyfer cysylltu i ffermydd gwynt alltraeth (offshore) fel y gallent gysylltu i'r rhwydwaith trydan ehangach.

1.7 Mae maint y compownd oddeutu 88m x 63m a bydd cerrig mân ar ei wyneb. Bydd y compownd yn cynnwys yr isod:

- Adeiladau ategol - adeilad amwynder ac adeilad bychan unllawr i'r prif systemau rheoli.
- Offer yn cynnwys 'switch gear', switsys, 'sealing ends', trawsnewidwyr ac ati.
- Generadur disel a thanc dŵr
- Ffordd fynediad a man troi i gerbydau HGV
- Ffens balis 2.4m o uchder gyda chefn ffens drydan 3.4m o uchder o lefel y ddaear.

1.8 Sefydlir compownd adeiladu dros dro i'r gogledd orllewin o waith yr is-orsaf arfaethedig, fydd wedi ei ffensio'n ddiogel yn ystod y cyfnod adeiladu a bydd yn cynnwys nifer o gyfleusterau dros dro ynghyd â:

- Swyddfeydd y safle ynghyd â swyddfeydd ac ystafelloedd cyfarfod.
- Cyfleusterau Lles staff
- Mannau storio i gerbydau adeiladu, peirannau, offer, deunyddiau, tanwydd a deunyddiau gwastraff.

1.9 Mae'r cais hefyd yn golygu addasu'r fynedfa newydd o'r brif gefnffordd (A487) fydd yn golygu bod traffig adeiladu yn gallu mynd i mewn ac allan o'r safle. Ar ôl y gwaith adeiladu, bydd y

fynedfa yn cael ei gwneud yn barhaol gyda cheg fydd yn ddigon llydan i ddau gar gyda ffordd 6m o led.

1.10 Bydd y gwaith hefyd yn golygu y bydd angen newid y peilon presennol ar y lein gyda pheilon newydd fel y daw i'r is-orsaf. Mae'r bwriad i newid y peilon presennol gyda pheilon tyniant wedi ei eithrio o Adran 37(1) o Ddeddf Trydan 1989 fel y nodir yn Rhan 3(e) o Reoliadau Llinellau Uwchben (Eithriedig) (Cymru a Lloegr) 2009 gan nad yw uchder y peilon newydd ddim yn uwch na'r peilon presennol gaiff ei newid, o fwy na 10% ac o'r herwydd lleolir y peilon newydd o fewn y lein rhwng y ddau beilon presennol. Oherwydd bod y gwaith wedi ei eithrio rhag gorfod cael caniatâd dan y Ddeddf Trydan, mae yn golygu datblygiad a ganiateir dan Ran 17, Dosbarth G(a)o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Cymru a Lloegr) 1995 (y GPDO). Yn unol â hynny, er bod y peilon arfaethedig wedi ei ddangos ar gynlluniau'r cais, nid yw'n llunio rhan o'r cais cynllunio yma ac mae'n syrthio y tu allan i derfyn y llinell goch.

1.11 Cyflwynir y cais i Bwyllgor am ei fod yn ymwneud gyda safle dros 0.5 hectar.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**
ISA 1 – Darpariaeth Isadeiledd
TRA 4 - Rheoli ardrawiadau cludiant
PS 5 - Datblygu cynaliadwy
PCYFF 2 - Meini prawf datblygu
PCYFF 3 - Dylunio a siapio lle
PCYFF 4 - Dylunio a thirweddu
PS19 - Gwarchod a lle fo'n berthnasol gwella’r amgylchedd naturiol
AMG 5 - Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
PS 20 - Diogelu a ble’n briodol gwella asedau treftadaeth

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**
Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040
Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11- Chwefror 2021)
Nodyn Cyngor Technegol 5 - Cynllunio a chadwraeth natur
Nodyn Cyngor Technegol 12 - Dylunio
Nodyn Cyngor Technegol 18 - Trafnidiaeth

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C17/0063/36/SC - Barn sgrinio i'r is-orsaf 400kv newydd arfaethedig - 08-Chwefror 2017 – ddim angen AEA

3.2 C17/0772/36/LL - Isbwerdy newydd, cyfarpar cysylltiol, tirweddu a ffordd mynediad newydd - Caniatáu 12 Rhagfyr 2017

3.3 C18/0168/36/LL - Cais i newid amod 2 o ganiatâd cynllunio C17/0772/36/LL er mwyn gallu diwygio llwybr gwyro llwybr cyhoeddus rhif 18 - Caniatáu 18 Mai 2018

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned/Tref: Dim gwrthwynebiad.

Uned Drafnidiaeth: Heb eu derbyn.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig i ddiwygio amod 1 o ganiatâd C17/0772/36/LL i ymestyn y cyfnod i ddechrau'r gwaith am 5 mlynedd ychwanegol ac rydym yn darparu'r cyngor canlynol.

**Rhywogaethau a Warchodir**

Nodwn fod yr adroddiad ystlumod a gyflwynwyd i gefnogi'r cais uchod (Ecological Appriasal Report for Bryncir Substation for the National Grid dyddiedig Hydref 2022) wedi nodi nad yw ystlumod yn debygol o fod yn bresennol ar safle'r cais. O'r wybodaeth a gyflwynwyd, rydym yn ystyried bod y datblygiad arfaethedig yn cynrychioli risg is i ystlumod, fel y diffinnir yn ein dogfen arweiniol 'Ymagwedd Cyfoeth Naturiol Cymru at Ystlumod a Chynllunio' (2015). Caiff ystlumod a'u safleoedd bridio a'u mannau gorffwys eu gwarchod dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd).

Gan fod y datblygiad yn yr achos hwn yn cynrychioli risg is i ystlumod, nid ydym yn ystyried y byddai'r datblygiad yn debygol o gael effaith niweidiol ar y gwaith o gynnal poblogaeth y rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraethol ffafriol yn ei gwasgariad naturiol

Yn ogystal â hyn, rydym yn cynghori na fydd y datblygiad arfaethedig yn debygol o niweidio neu aflonyddu ar yr ystlumod neu eu safleoedd bridio a'u mannau gorffwys ar y safle hwn, cyn belled â bod y mesurau osgoi a ddisgrifir yn yr adroddiad ystlumod yn cael eu gweithredu.

Dŵr Cymru: Nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar yr estyniad amser ond gofynnwn i unrhyw amodau yn gysylltiedig gyda draenio gael eu cadw ar unrhyw ganiatâd newydd ar gyfer y datblygiad.

Uned Gwarchod y Cyhoedd: Heb eu derbyn.

Uned Bioamrywiaeth: Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r bwriad i estyniad amser.

Mae National Grid o dan ddyletswydd y Ddeddf Amgylchedd 2016 i wella bioamrywiaeth, felly hoffwn iddynt ddarparu cynllun i wella bioamrywiaeth er enghraifft plannu coed a chreu gweirglodd blodau gwyllt.

Uned Cefnffyrdd, Llywodraeth Cymru: Nid yw Llywodraeth Cymru fel awdurdod priffyrdd i gefnffordd yr A487 eisiau rhoddi cyfarwyddyd mewn perthynas gyda'r cais yma.

Uned Hawliau Tramwy: Heb eu derbyn.

| | |
|---|---|
| Uned Dŵr ac Amgylchedd YGC: | Cyflwynwyd Adroddiad Dilysu Asesiad Risg Llifogydd gyda'r cais sy'n ystyried unrhyw newidiadau yn y risg llifogydd ar y safle arfaethedig ers dyddiad y cais cynllunio gwreiddiol. Rydym yn cytuno â chanfyddiadau'r adroddiad nad yw'r risg o lifogydd ar y safle wedi newid yn faterol yn seiliedig ar y mapiau llifogydd diweddaraf, a'i bod yn ymddangos bod y mesurau lliniaru rheoli risg llifogydd/dŵr wyneb a gynigiwyd yn wreiddiol yn addas. Fodd bynnag, byddem yn argymell bod sianel ddraenio fas yn cael ei chloddio o amgylch ffin yr is-orsaf arfaethedig i gludo unrhyw ddŵr wyneb a allai fod yn nesáu o'r gogledd yn ystod/yn dilyn cyfnodau o law trwm (yn unol â'r llwybr llifogydd a argymhellir ar y mapiau llifogydd cyfredol). |
| Uned Coed: | Heb eu derbyn. |
| Parc Cenedlaethol Eryri: | Heb eu derbyn. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybuddion ar hyd y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Derbyniwyd un gohebiaeth yn nodi gwrthwynebiad i'r bwriad ond ddim yn nodi rhesymau dros y gwrthwynebiad. |

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Cais i newid amod 1 o ganiatâd cynllunio C17/0772/36/LL er mwyn ymestyn cyfnod cychwyn y datblygiad o 5 flynedd ychwanegol sydd gerbron, ac felly nid oes newid i'r cynllun. Mae egwyddor y bwriad yma wedi ei dderbyn a sefydlu eisoes gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol thrwy ganiatâd cynllunio C17/0772/36/LL. Mae hyn yn ystyriaeth faterol cynllunio. Mae'n bwysig ystyried felly os yw'r amgylchiadau neu'r sefyllfa bolisi cynllunio wedi newid ers caniatáu'r cais hwn yn wreiddiol.

5.2 Mae'n bwysig asesu a chadarnhau os yw'r sefyllfa yn nhermau cydymffurfio â'r Polisïau Cynllunio yn parhau i fod yr un fath. Dim ond os oes tystiolaeth o newid sylweddol mewn sefyllfa y gellir cysidro'r bwriad yn wahanol yn gyd-destun y polisïau yma.

5.3 Penderfynodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol y cais gwreiddiol ar sail polisïau Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ac felly nid oes newid materol wedi bod yn y polisïau ers penderfynu y cais blaenorol. Er nad oes newid materol yn y polisïau ystyrir y byddai'n briodol i atgoffa o gefndir y prosiect a'r angen amdano.

5.4 Cyflwynwyd y cais gan y National Grid Electricity Transmission (NGET); ac mae yn cynnig is-orsaf drydan newydd a gwaith cysylltiedig ar y safle arfaethedig. Mae angen y gwaith arfaethedig gan fod angen cryfhau rhwydwaith trydan presennol yr ymgeisydd rhwng is-orsafoedd Pentir a Thrawsfynydd i sicrhau fod yr holl gynhyrchiant ynni newydd arfaethedig yng ngogledd Cymru yn gallu cael ei gynnwys, gan hefyd gynnal dosbarthiad cyflenwad Scottish Power Manweb.

5.5 Sefydlwyd felly fod angen y gwaith isod:

- Is-orsaf 400Kv newydd ym Mryncir
- Cysylltiad newydd rhwng is-orsaf newydd Bryncir a'r llinell 132Kv bresennol uwchben a thynnu rhan o'r llinell bresennol 132Kv uwchben rhwng y llinell uwchben bresennol a'r cysylltiad newydd.
- Newid un peilon presennol ym Mryncir i gysylltu gyda'r is-orsaf newydd
- Uwchraddio / newid ceblau yn Aber Glaslyn

- Uwchraddio 'Cable Sealing End Compounds' presennol yn Wern a'r Garth
- Estyniad yn nherfyn is-orsaf bresennol yn is-orsaf Trawsfynydd; a
- Ail ddargludo un cylched ar y llinell bresennol uwchben rhwng Penisarwaun ac Is-orsaf Trawsfynydd.

5.6 Er hynny, mae'r cais hwn ond yn ymwneud â datblygiad arfaethedig yr is-orsaf 400Kv newydd ym Mryncir, ond mae'n hanfodol y deallir ei fod yn ffurfio rhan o brosiect llawer ehangach.

5.7 Mae’r llinell drosglwyddo uwchben rhwng Pentir a Thrawsfynydd ar hyn o bryd ond yn cludo un cylched drosglwyddo, ond gyda'r gallu i gludo dau heb yr angen am waith sylweddol i'r lein. Byddai sefydlu ail gylched drosglwyddo ar y llwybr yn darparu ar gyfer y capasiti trosglwyddo ychwanegol sydd ei angen yng ngogledd Cymru. Polisi'r ymgeisydd yw defnyddio capasiti'r llwybrau trosglwyddo presennol cyn ceisio sefydlu llwybrau newydd.

5.8 Ar hyn o bryd, mae un o'r ddwy gylched ar y llinell uwchben rhwng Pentir a Thrawsfynydd yn gweithredu ar 132Kv gan Scottish Power Manweb fel rhan o'u rhwydwaith dosbarthu. Mae hwn yn cludo pŵer o Drawsfynydd i le i'r de o Fryncir. O'r fan yma mae mynd ymlaen i is-orsaf y Ffôr ar linell 132Kv uwchben, gan gyflenwi trydan i ddefnyddwyr ar draws Benrhyn Llŷn.

5.9 I sefydlu ail gylched drosglwyddo rhwng Pentir a Thrawsfynydd, mae angen tynnu cylched 132Kv Scottish Power Manweb o'r llinell. Yn hytrach na sefydlu llwybr 132Kv arall o Drawsfynydd, daeth yr Ymgeisydd a Scottish Power Manweb i'r casgliad y byddai sefydlu is-orsaf newydd yn ardal Bryncir yn darparu ateb mwy priodol. Swyddogaeth yr is-orsaf newydd yma fyddai cymryd pŵer o linell drydan uwchben 400kv Pentir - Trawsfynydd, ei drawsnewid yn foltedd o 132Kv gan gysylltu hyn gyda'r llinell bresennol 132Kv uwchben sy'n rhedeg i is-orsaf Scottish Power Manweb 132Kv yn y Ffôr. O'r herwydd byddai pŵer is-orsaf yn Ffôr yn cael ei ddarparu o'r is-orsaf newydd yn hytrach nag o is-orsaf Trawsfynydd fel yn bresennol, gan ganiatáu i'r cylched 132Kv fydd wedyn yn segur, i gael ei newid gyda'r ail gylched 400Kv.

5.10 Yn 2012, aeth yr ymgeisydd drwy broses ddylunio ac arfarnu i'r is-orsaf newydd arfaethedig gan adnabod rhestr-fer o ddewisiadau lleol, yr Opsiynau Gogleddol, Deheuol a Chanolog ym Mryncir. Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda'r cyhoedd ar y tri opsiwn a datgelwyd mai'r Opsiwn Canolog a Deheuol oedd y gorau o safbwynt y cyhoedd.

5.11 Adolygwyd rhestr fer yr opsiynau lleol ymhellach ym Mehefin 2016 gan yr ymgeisydd. Dewiswyd yr Opsiwn Deheuol fel y lleoliad a ffafriwyd, ar sail ymateb y cyhoedd, adolygiad o'r tiroedd ac agweddau technegol o ofynion y safle a'r cysylltiad gyda'r systemau trosglwyddo trydan. O ganlyniad i adborth ategol, rhagor o arfarnu a thrafodaethau gyda pherchnogion y tir fe wnaeth yr ymgeisydd adnabod safle'r cais fel y lleoliad a ffafriwyd i'r is-orsaf newydd.

5.12 Mae polisi ISA 1 yn berthnasol i’r ddarpariaeth o isadeiledd newydd gan ddatgan bydd cynigion am wasanaethau dŵr, trydan, nwy ac ati i wella’r ddarpariaeth, yn cael ei ganiatáu yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl. Mae Polisi Strategol PS5 yn y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn cefnogi cynigion datblygu ble y gellir dangos eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. O safbwynt y datblygiad yma, dangoswyd yr angen amlwg am yr is-orsaf arfaethedig ac er ei bod wedi ei lleoli y tu allan i unrhyw derfynau datblygu penodol; mae'r is-orsaf wedi mynd drwy broses arfarnu dylunio a lleolwyd yr opsiwn a ffefrir ger y llinell drydan uwchben 400kv Pentir - Trawsfynydd sy'n bodoli.

5.13 Fel rhan o gais C17/0772/36/LL cyflwynodd yr ymgeisydd Adroddiad Amgylcheddol a ddaw i'r casgliad na fydd unrhyw effeithiau sylweddol oherwydd adeiladu is-orsaf arfaethedig Bryncir. Aseswyd yr adroddiad hwnnw gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac Uned Bioamrywiaeth y Cyngor oedd yn fodlon gyda’i gynnwys.

5.14 Felly, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried fod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio gyda gofynion polisi ISA 1 a PS5 gan ei fod yn lliniaru'r ffactorau sy'n achosi newid yn yr

hinsawdd, yn cadw ac yn gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol, yn diogelu ac yn gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, yn gostwng yr effaith ar adnoddau lleol, yn hybu economi leol amrywiol ac ymatebol ac yn hybu safon uchel o ddylunio.

**Mwynderau gweledol, cyffredinol a phreswyl**

5.15 Mae'r bwriad yn golygu darparu is-orsaf sy'n cynnwys amryfal offer a hefyd tri adeilad gyda'r deunyddiau gorffen i'w cytuno drwy amod cynllunio ar ôl caniatáu’r cais:

- Tanc dŵr - tua 6.5m x 6.5m a 4m o uchder gyda tho crib isel.
- Adeilad mwynderau - tua 12m x 7m a 4.5m o uchder gyda tho fflat
- Gweithdy / storfa - tua 11m x 9m a 4.5m o uchder gyda tho fflat.

5.16 Mae’r bwriad hefyd yn golygu creu ffordd fynediad a newidiadau i fynedfa'r fferm bresennol i'r safle.

5.17 Mae'r bwriad hefyd yn cynnwys tirlunio gyda:

- Rhannau o gloddiau newydd ar hyd y fynedfa i'r ffordd fynediad arfaethedig
- Clawdd terfyn newydd a fwriedir yn uniongyrchol i'r gogledd o'r is-orsaf arfaethedig
- Bwriad i adfer terfyn cae/ail-blannu clawdd i'r dwyrain a'r gorllewin o'r is-orsaf
- Bwriad i adfer ac ail-blannu clawdd i'r gorllewin o'r is-orsaf
- Bwriad i gael bloc bach o goetir cynhenid, yn union i'r gogledd ddwyrain o'r is-orsaf yng nghornel y cae arfaethedig.

5.18 Mae Polisi PCYFF2 yn gofyn nad yw cynigion yn cael effaith andwyol ar iechyd, diogelwch na mwynderau trigolion lleol, defnydd tir ac eiddo arall na nodweddion yr ardal. Mae Polisi PCYFF 3 o'r CDLl yn disgwyl y bydd pob cynnig yn arddangos dyluniad o ansawdd uchel sy’n rhoi ystyriaeth lawn i gyd-destun yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ac sy’n cyfrannu at greu llefydd deniadol a chynaliadwy. Mae Polisi PCYFF 4 yn disgwyl i bob cynnig integreiddio gyda'r hyn sydd o'i gwmpas a dylent ddangos yn ddigonol sut mae tirlunio wedi ei ystyried o'r cychwyn cyntaf. Ar sail yr wybodaeth a'r cynlluniau a gyflwynwyd, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried fod y datblygiad yn cyd-fynd â gofynion y polisïau hyn.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.19 Mae'r bwriad yn golygu newid y fynedfa fferm bresennol o'r A8487 sy'n Gefnffordd er mwyn cael mynediad addas i draffig adeiladu. Bydd y fynedfa wedyn yn cael ei chynnal a'i defnyddio i ddibenion cynnal a chadw. Ymgynghorwyd gydag Uned Cefnffyrdd, Llywodraeth Cymru a nodwyd ganddynt nad oeddynt am roddi cyfarwyddyd ar y cais. Byddai’r amod i gyflwyno a chytuno cynllun rheoli traffig adeiladu a roddwyd ar ganiatâd C17/0772/36/LL yn cael ei gynnwys ar unrhyw ganiatâd diwygiedig ar gyfer y safle. Ar sail yr uchod; mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried fod y datblygiad yn cyd-fynd â gofynion polisi TRA 4 o'r CDLl.

5.20 Mae’r bwriad hefyd yn golygu gwyro Llwybr Troed Hawl Tramwy Cyhoeddus (18 Dolbenmaen). Gwelir fod cais C18/0168/36/LL wedi cael ei ganiatáu i amrywio llwybr gwyro’r llwybr cyhoeddus o’r hyn a gytunwyd yng nghais C17/0772/36/LL. Ystyrir felly y byddai’n briodol yn yr amod unol gyda’r cynlluniau fod y cynllun diwygiedig ar gyfer gwyro’r llwybr fel a gytunwyd yng nghais C18/0168/36/LL yn cael ei gynnwys yn y rhestr cynlluniau.

**Materion bioamrywiaeth**

5.21 Darparwyd Adroddiad Gwerthusiad Ecolegol (dyddiedig Hydref 2022) fel rhan o’r cais er rhoddi’r sefyllfa gyfredol o ran materion ecolegol. Nid oedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru na’r Uned Bioamrywiaeth wrthwynebiad i’r bwriad ar sail bioamrywiaeth / ecoleg. Mae mesurau lliniaru wedi cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Gwerthusiad Ecolegol gyflwynwyd ar y cais presennol a hefyd oddi fewn i’r Adroddiad Amgylcheddol gyflwynwyd ar gais C17/0772/36/LL. Bydd y ddwy ddogfen yma yn cael ei rhestru yn y dogfennau sydd angen cydymffurfio gyda hwy

wrth gyflawni'r datblygiad ac o wneud hyn ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o ran Polisi PS 19 CDLL.

**Materion treftadaeth**

5.22 Fel rhan o gais C17/0772/36/LL cyflwynodd yr ymgeisydd asesiad o'r Amgylchedd Treftadaeth fel rhan o'r Adroddiad Amgylcheddol (Pennod 6). Nid oes unrhyw asedau treftadaeth dynodedig yn ardal y safle ac ni ystyrir y byddai gan y bwriad unrhyw effaith ar yr asedau treftadaeth a restrir ym mholisi PS20. Felly, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried fod y cynnig yn cydymffurfio â gofynion polisi PS20. Ar gais C17/0772/36/LL derbyniwyd sylwadau gan Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn nodi'r angen i osod amodau cynllunio yn ymwneud gyda chyflwyno cynllun ac adroddiad o waith archeolegol. Ystyrir y byddai'n briodol rhoddi amodau cyffelyb ar y caniatâd yma i sicrhau fod y safle yn cael ei asesu o ran unrhyw olion archeolegol.

**Materion llifogydd / draenio**

5.23 Fel rhan o'r cais cyflwynwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd. Mae'r adroddiad yma yn rhoddi ystyriaeth i unrhyw newidiadau o ran risg llifogydd i'r safle ers i'r cais gwreiddiol gael ei ystyried. Derbyniwyd sylwadau gan yr Uned Dŵr ac Amgylchedd YGC ac maent hwy yn cytuno gyda darganfyddiadau'r adroddiad nad yw risg llifogydd ar y safle wedi newid yn faterol wedi ei selio ar y mapiau llifogydd diweddaraf a bod y mesurau lliniaru risg llifogydd / rheoli dŵr wyneb a gynigwyd yn wreiddiol yn dal yn addas. Mae'r Uned Dŵr ac Amgylchedd fodd bynnag yn argymell creu sianel ddraenio o amgylch ffin yr is-orsaf i gasglu dŵr wyneb a fyddai'n dod o gyfeiriad y gogledd yn dilyn cyfnodau o law trwm. Mae amod i gytuno manylion sut y byddai dŵr brwnt a dŵr wyneb yn cael ei waredu ar ganiatâd C17/0772/36/LL ac felly byddai modd cynnig sianel o'r fath fel rhan o'r manylion hynny. Gellir rhoddi nodyn ar y caniatâd hefyd yn tynnu sylw at gynnwys sylwadau'r Uned Dŵr ac Amgylchedd fel bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o'r hyn argymhellir wrth baratoi'r cynllun ar gyfer gwaredu dŵr wyneb.

5.24 Nid oes gan Dŵr Cymru unrhyw wrthwynebiad i ymestyn y cyfnod i gychwyn y gwaith ond yn awyddus fod unrhyw amodau draenio yn cael eu cario drosodd o'r caniatâd C17/0772/36/LL. Byddai'n briodol felly i'r amod cytuno manylion dŵr brwnt a dŵr wyneb gael ei gario drosodd i unrhyw ganiatâd newydd ar gyfer y safle.

**6. Casgliadau:**

6.1 Wedi ystyried yr holl faterion perthnasol ni ystyrir fod y bwriad o ymestyn yr amser a roddir o dan ganiatâd rhif C17/0772/36/LL er mwyn cychwyn ar y datblygiad yn groes i'r polisïau na'r canllawiau lleol a chenedlaethol perthnasol. Ar sail yr asesiad uchod credir bod y bwriad yn parhau i fod yn dderbyniol yn ddarostyngedig ar gynnwys amodau perthnasol fel y cynhwyswyd o fewn y caniatâdau blaenorol.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu – amodau

1. 5 mlynedd
2. Sicrhau cwblhau'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau a dogfennau a gyflwynwyd yng nghais C17/0772/36/LL ynghyd a'r cynllun diwygiedig o ran gwyro'r llwybr cyhoeddus ganiatawyd yng nghais C18/0168/36/LL a'r Adroddiad Gwerthusiad Ecolegol a'r Adroddiad Asesiad Canlyniadau Llifogydd a gyflwynwyd ar y cais cyfredol.
3. Gorffeniad i'w gytuno (gan gynnwys lliw y ffens)
4. Cytuno cynllun i waredu dŵr brwnt a dŵr wyneb
5. Cytuno cynllun rheoli amgylcheddol adeiladu
6. Cytuno cynllun rheoli traffig adeiladu a derbyn cymeradwyaeth Uned Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru ar faterion mynediad (ac unrhyw amodau ychwanegol sydd yn berthnasol i hyn).

7. Cwblhau'r tirweddu o fewn y tymor plannu cyntaf yn dilyn cwblhau'r bwriad.
8. Sicrhau gwyro / gwarchod y llwybr.
9. Amodau Archeolegol.
10. Amser gweithio.

Nodyn Dŵr Cymru ac Uned Dŵr ac Amgylchedd YGC